



Amcan Llesiant 11

Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin

Y canlynol yw ein hymrwymiaadau a'n sylwadau cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2018/19.

Ymrwymiaadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
A - Cymunedau Oed Gyfeillgar		
Byddwn yn datblygu ymhellach Gynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda Sir Gaerfyrddin. <i>(Cyf. 13227)</i>	✓	Mae'r cynllun gweithredu Heneiddio'n Dda bellach yn rhan annatod o'r Amcan Llesiant hwn. Mae cefnogaeth barhaus yn cael ei rhoi i'r Rhwydwaith 50+ a'r Grŵp Llywio a chynhaliwyd digwyddiad blynyddol 50+ yn yr Ardd Fotaneg ar 14 Medi gyda 634 o bobl yn bresennol. Defnyddiwyd y digwyddiad i gyflwyno'r cysyniad Mae Sir Gaerfyrddin yn Garedig . Mae llythrau newyddion misol i'r rhwydwaith 50+ bellach wedi'i sefydlu i gefnogi gwell cyfathrebu.
Byddwn yn gwella ein dulliau ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r Fforwm 50+. <i>(Cyf. 13228)</i>	✓	Anfonir e-bost bob deufis bellach at holl aelodau'r Fforwm 50+ drwy Dotmailer. Ymateb cadarnhaol gan y rhai sy'n derbyn y neges. Cysylltiadau â'r Grŵp Llywio 50+ yn datblygu.
Byddwn yn parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth 'Ceir Cefn Gwlad' a chysylltiadau â'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. <i>(Cyf. 13229)</i>	✓	Rydym yn parhau i gefnogi'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol â darpariaeth y Cynllun Ceir Cefn Gwlad gan gynnwys hysbysebu/marchnata gyda'r nod o recriwtio mwy o wirfoddolwyr yn ogystal â chodi proffil y cynllun. Hefyd mae'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol yn hyrwyddo ac yn recriwtio drwy'r cyfryngau cymdeithasol.
Byddwn yn parhau i adolygu rhwydwaith Trafnidiaeth Gyhoeddus y Sir ac yn gweithio gyda Gweithredwyr a Rhanddeiliaid i gynnal y rhwydwaith o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael. <i>(Cyf. 13230)</i>	✓	Rydym yn parhau i adolygu a chefnogi rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus a gynorthwyr y Sir yn wyneb amodau heriol gan gynnwys llai o weithredwyr bysiau, costau cynyddol, a llai o ddefnydd ar rai gwasanaethau. Mae rhwydweithiau fel un Dyffryn Tywi wedi'u hailgynllunio a'u diwygio i ddarparu gwasanaethau o ganlyniad i ymatebion y farchnad.
Byddwn yn parhau i hyrwyddo Cerdyn Teithio Rhatach Cymru Gyfan. <i>(Cyf. 13231)</i>	✓	Rydym yn parhau i hyrwyddo'r cynllun ar-lein ac mewn dros 600 o leoliadau arosfannau bysiau ledled y sir. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ffordd mae'r cynllun yn cael ei weithredu a bydd yn arwain ar farchnata trefniadau newydd yn y flwyddyn i ddod. Dengys ein canlyniad perfformiad ar gyfer 2018/19 fod yr hyrwyddo wedi sicrhau y rhagorwyd ar y % targed am nifer y tocynnau consesiynau.
Byddwn yn lansio gwefan i gyfeirio dysgwyr at y cyfleoedd dysgu sydd ar gael gan yr holl ddarparwyr yn y Sir. <i>(Cyf. 13232)</i>	✓	Mae gwefan DEWIS ar waith ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid i boblogi'r cynnwys lleol fel y bo'n briodol
Byddwn yn darparu cymorth i ofalwyr, a gofalwyr ifanc yn benodol, i'w galluogi i barhau i ddarparu'r gofal amhrisiadwy maent yn ei gynnig i berthnasau a ffrindiau mewn angen. <i>(Cyf. 13233) MF5-58</i>	✓	Mae Bwrdd Partneriaeth Strategol y Gofalwyr wedi adolygu ei Gylch Gorchwyl a bydd yn parhau i gwrdd yn chwarterol i ystyried meysydd blaenoriaeth i'w datblygu. Cynllunnir hefyd ragor o waith ar lunio strategaeth a fydd yn darparu dull mwy cydlynol a theg o ran gofal Ailalluogi / cymorth Seibiant.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<p>Mae adolygiad o'n cynllun Cerdyn Argyfwng: Rwy'n Ofalwr wedi'i gymeradwyo a bydd hyn yn cynnig y manteision canlynol i ofalwyr ledled Sir Gaerfyrddin:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun wrth gefn i roi sicrwydd i ofalwyr na fydd y sawl y maent yn gofalu amdano mewn perygl o gael ei adael heb oruchwyliaeth • Cerdyn prawf adnabod a fydd yn brawf o fod wedi'i gofrestru fel Gofalwr gyda'r Awdurdod. • Aelodaeth o Gynllun Manteision Lleol Sir Gaerfyrddin. <p>Mae gennym Fforwm Gofalwyr yn y sir at ddiben cydgynhyrchu.</p>
B – Cymunedau sy'n Cefnogi Pobl â Dementia		
<p>Byddwn yn parhau i gefnogi pobl sy'n byw â dementia ac i gefnogi datblygiad cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia a darpariaethau ar draws y Sir. (Cyf.13234) MF5-60</p>	✓	<p>Mae'r grŵp strategaeth dementia wedi treulio llawer o amser yn llunio cynnig ar gyfer cyllid dementia Llywodraeth Cymru, yn unol â'n hanghenion lleol a chenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys gweithwyr Dementia allweddol ym mhob ardal, cydgyssylltwyr dementia a Thîm Amlddisgyblaethol Arbenigol ynghylch dementia. Mae'r cynigion wedi'u hanfon i Lywodraeth Cymru. Maent wedi derbyn y cynigion hyn ac rydym yn awr yn disgwyl i'r arian gael ei ryddhau cyn inni allu symud ymlaen. Bydd hyn yn chwyldroi'r gwasanaethau Dementia yn ardal Hywel Dda.</p>
C - Atal Codymau		
<p>Byddwn yn arolygu priffyrdd, llwybrau troed a seilwaith goleuadau yn rheolaidd i nodi unrhyw ddiffygion sy'n peri perygl i'r cyhoedd. (Cyf. 13235)</p>	✓	<p>Cafodd rhaglen o arolygiadau ei chynnal gan dîm arolygu hyfforddedig. Mae'r rhaglen wedi'i monitro i sicrhau bod arolygiadau'n cael eu cwblhau ar amser. Y perfformiad cyffredinol ar gyfer 2018/19 yw 99.16% o'r arolygiadau wedi'u cwblhau ar amser (gan gynnwys goddefgarwch).</p>
<p>Byddwn yn sicrhau bod amrywiaeth o ymyriadau gweithgarwch corfforol wedi'u targedu yn cael eu rhoi ar waith drwy gydol cwrs bywyd i gynyddu lefelau gweithgarwch y rhai nad ydynt yn egnïol neu y mae perygl na fyddant yn egnïol ac yn cynyddu cydlyniant cymdeithasol a chymunedol. (Cyf. 13236)</p>	✓	<p>Mae ystod eang o fentrau ar waith - Nofio Am Ddim; Pasbort Llythrennedd Corfforol; Cynllun i Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff; Grwpiau Ffocws Datblygu Chwaraeon (Beicio; Athletau; Nofio a Thriathlon); Swyddog Oedolion Actif â ffocws ar y brif ffrwd a chylch gorchwyl wedi'i dargedu (e.e. iechyd meddwl) ac ati. Rydym hefyd wedi llwyddo i gael tua £10k o Gyllid Digonolrwydd Chwarae ar gyfer amrywiaeth o ymyriadau sy'n gysylltiedig ag anabledau a chwarae. Cafwyd rhagor o gyllid ar gyfer ymyriadau am 2019/20 gan Chwaraeon Cymru a chyrrff iechyd. Strwythur Chwaraeon a Hamdden newydd yn cael ei roi ar waith i alluogi twf y gwaith hwn.</p>
<p>Gan gydweithio â'n partneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, byddwn yn darparu hyfforddiant staff drwy fenter Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif (MECC), a fydd yn cynnwys cymorth mewn perthynas â risgiau tân, peryglon eraill, llithro, baglu a chodymau a hyfforddiant Ymyrraeth Fer ynghylch Alcohol. (Cyf. 13237)</p>	✓	<p>Mae cynnydd gwych wedi cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ac mae carfan gyntaf lwyddiannus o staff yn cael hyfforddiant yn MECC. Yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym Medi 2018, cytunwyd i ddatblygu ymhellach y dull hwn drwy grŵp Cyflawni Ymyriadau Cynnar ac Atal y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</p>
D – Cyfleoedd i gael gwaith a sgiliau newydd		
<p>Byddwn yn cydlynu cyfeirio gweithgarwch digidol ar draws y Sir ar gyfer pobl hŷn. (Cyf. 13238)</p>	✓	<p>Mae gwybodaeth am argaeledd gwahanol adnoddau hyfforddiant Digidol i gleientiaid hŷn wedi ei dosbarthu trwy sefydliadau partner. Digwyddiadau hyrwyddo ar</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<p>gyfer 50+ wedi eu cynnal yng Nghaerfyrddin, Pontyberem, Rhydaman a Llanelli. Mae partneriaethau wedi'u sefydlu gan ddefnyddio'r rhwydwaith pobl dros 50 oed a thrwy raglen Cymunedau Digidol Cymru Llywodraeth Cymru. Mae ein Biwro Cymunedol bellach yn aelod o'r Rhwydwaith Canolfannau Ar-lein, sy'n rhan o elusen Good Things Foundation sy'n cefnogi pobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol ac yn gymdeithasol i wella eu bywydau drwy dechnoleg ddigidol. Mae plattform dysgu ar-lein Learn My Way yn helpu miloedd o bobl y flwyddyn i ennill sgiliau digidol sylfaenol ac i fynd ymlaen i ddysgu anffurfiol a ffurfiol pellach a gobeithio mai hwn fydd sylfaen cymorth Cynhwysiant Digidol i bobl dros 50 oed.</p>
<p>Byddwn yn cynnal ac yn hyrwyddo Canolfan Addysg Gymunedol Caerfyrddin fel canolfan flaenllaw ar gyfer Sgiliau Sylfaenol a Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL), dosbarthiadau preifat, clybiau cymunedol a chymdeithasau. (Cyf. 13239)</p>	✓	<p>Mae Canolfan Addysg Gymunedol Caerfyrddin yn dal i redeg canolfan flaenllaw ar gyfer Sgiliau Sylfaenol a Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL), dosbarthiadau preifat, clybiau cymunedol a chymdeithasau. Mae incwm o osodiadau wedi rhagori ar y gyllideb a gynlluniwyd ac mae grwpiau newydd yn archebu'r ganolfan gydol y flwyddyn, yn ogystal â'r rhai sydd wedi eu sefydlu ers meitin.</p>
E – Unigrwydd ac arwahanrwydd		
<p>Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i roi mwy o gyfleoedd i bobl agored i niwed a phobl hŷn gymdeithasu er mwyn lleihau unigrwydd. (Cyf 13240) MF5-59</p>	✓	<p>Mae canfyddiadau'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi dod i ben ac mae adroddiad wedi'i gyflwyno i'r pwyllgor craffu - iechyd a gofal cymdeithasol ym mis Mehefin. Gwneir nifer o argymhellion allweddol fel rhan o'r adroddiad hwn. Pan gaiff ei gymeradwyo gan y pwyllgor bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno fel tystiolaeth.</p>